# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 2ail o Ragfyr 2021 drwy Zoom yn brydlon am 8.00 o'r gloch.**
Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

Yn bresennol drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Tegid Jones (Cadeirydd), Aled Evans, Thomas Prys Jones, Sian Angharad Parry, Anwen Jones, Ceri Jones, Naomi Jones, Darren Morley, Gareth O. Davies, Trefor Wyn Jones, Angela Williams a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau: Margaret Griffith, Aled Davies, William Ifor Hughes a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 4ydd o Dachwedd 2021. (Y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd lofnodi ei bod yn gywir).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Tachwedd 2021 –
(Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 02.12.2021).

4. <u>**Datgan buddiant personol**</u>, - Cynghorydd Sian Angharad Parry, eitem 6 (c) Cais tir ger Coedwig Coed Mawr, Cricieth, oherwydd ei bod yn gymydog, (Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb cyn y cyfarfod).

5. <u>**Materion gan Cyngor Gwynedd**</u>
<u>**Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd Mis Rhagfyr 2021 – derbyn.**</u>

| **Dyddiad** | **Lleoliad gwaith** | **Disgrifiad o'r Gwaith** | **Gwasanaeth** |
|---|---|---|---|
| **6.12.2021 hyd at 5 diwrnod** | **Rhosgof, Ynys Creua, Llangybi** | **Gwaith ailwynebu** | **Priffyrdd** |
| **15.11.2021 hyd at 3 diwrnod** | **Ffordd Bryngwynt Caeau Pellaf, Chwilog** | **Gwaith ailwynebu** | **Priffyrdd** |

6. <u>**Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**</u>

a) <u>**Cais rhif: C21/1091/41/LL – Tir ger Maes Llwyd, Llanystumdwy**</u> - codi 6 tŷ (2 fforddiadwy), creu mynedfa gerbydol newydd, darpariaeth parcio a gwaith cysylltiedig.
<u>**Gwrthwynebu oherwydd dylai mwy ohonynt fod yn dai fforddiadwy**</u>.

b) <u>**Cais rhif: C21/1117/41/LL - Cefn Coed, Chwilog**</u>, - Mynedfa amaethyddol newydd.
<u>**Dim gwrthwynebiad.**</u>

c) <u>**Cais rhif: C21/0993/35/LL**</u> – <u>**Tir ger Coedwig Coed Mawr, Cricieth**</u> – defnyddio tir ar gyfer gwersylla/glampio amgen parhaol (9 pod). (Ail gyflwyniad o gais C20/0348/35/LL).
<u>**Gwrthwynebu ar sail fod y fynedfa ar dro peryglus, gwelediad sal, a thyfiant coed yn broblem yno. Hefyd fod yr arolwg wedi cael ei wneud ym mis Hydref, ac nid yn ystod prysurdeb yr haf, felly roedd y canlyniadau yn gamarweiniol.**</u>

7. <u>**Biniau halen o fewn y gymuned**</u> – mae 5 ohonyn nhw.

- Ger Gwyddfor, Chwilog.
- Pentyrch Uchaf, Llangybi.
- Rhwng Bont a Chapel y Beirdd, Bryn Beddau, Rhoslan.
- Tan yr Erw, Llanystumdwy.

Mae angen cadw golwg arnynt yn gyson yn ystod y gaeaf, a gadael i'r Clerc wybod os oes angen ei llenwi – roedd pob un yn iawn.

8. **Un Llais Cymru - ymateb i ymgynghoriad trethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar** - Clerc wedi anfon y manylion drwy ebost at bawb. **Derbyn**.

9. **Ymgynghoriad ar yr ymchwiliad i ail gartrefi gan Senedd Cymru** – angen anfon unrhyw ymateb erbyn 14.01.2022. **Derbyn**

10. **Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr** – angen ymateb erbyn 23.02.2022. **Derbyn**

11. **Ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg(CSGA) 2022-2032**
Mewn cyfarfod ar **21 Gorffennaf, 2021** bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32, i fynd i gyfnod ymgynghori cyhoeddus. Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o **15 Hydref 2021 hyd at 1:00yh ar 17 Rhagfyr 2021.**
**Trafodwyd y mater gan nodi y dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i ymchwil rhyngwladol sy'n tystio i fanteision dwyieithrwydd a bod plant sydd efo'r sgiliau hynny yn gyffredinol yn elwa'n ddeallusol. Mae peth pryder mewn sawl ardal bod un ysgol uwchradd ym Mangor efo'r ddelwedd ei bod yn llai Cymreig nag ysgolion gweddill y Sir, ac o'r herwydd mae nifer o rieni e.e. o Eifionydd, sydd a'u plant wedi manteisio ar addysg Gymraeg yn yr ysgolion cynradd yn anfon eu plant yno. Mae hyn yn gwanio llwyddiannau yr ysgolion cynradd a'r Canolfannau Iaith ac yn creu cymdeithas o blant fydd arwahan yn eu broydd ac yn tanseilio yr hyn yr amcanna'r Sir ei gyflawni yn y sector uwchradd.**

12. **Diffyg ymateb gan Cyngor Gwynedd** – Cyngor Cymuned Llandygai wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn gofyn am gyfle i gynnal cyfarfod ag ef i dynnu ei sylw at y ffaith fod diffygion gydag ymateb i ymholiadau cynghorau cymuned ar adegau. **Cytuno**.

13. **Ymgyrch baw cwn 'Gadewch olion pawennau yn unig'**- Cadwch Cymru'n Daclus yn mynd i anfon posteri atal baw cwn at bob cyngor tref a chymuned yng Nghymru. Bydd ymgyrch arall wedyn, i atal sbwriel yn y gymuned a byddant yn anfon posteri pwrpasol atom adeg honno hefyd. **Gosod posteri ar yr hysbysfyrddau.**

14. **Adroddiad blynyddol ar Gae Chwarae Llangybi gan 'Fields in Trust'**. – roedd y Clerc wedi rhoi poster wedi ei lamineiddio gyda manylion cyswllt ar y ffens llynedd, ac ar yr hysbysfwrdd yn Llangybi, ond mae'n debyg nad yw yr un ar y ffens yno bellach, gwynt ar glaw o bosib. **Angen gosod un arall yno, efallai o ddefnydd 'gwydr ffeibr'.**
Maent yn sôn am yr angen i beintio a chrafu darnau wedi rhydu yma ac acw yno, - a gludo ambell ddarn o'r matiau duon. **Yr Is-gadeiriydd a'r Clerc am drefnu i fynd yno i weld yn union beth sydd angen ei wneud cyn holi am brisiau i wneud y gwaith**.

15. **Ymgynghoriad CynlluniauTeithio Llesol** – y Clerc wedi holi Mr Steffan Jones a Mr Iwan ap Trefor os oedd penderfyniad wedi ei wneud am gael llwybr rhwng Chwilog ac Afonwen, a derbyniwyd ebost gan Mr Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd yn cadarnhau:-

"sawl mlynedd yn ôl mae hyn wedi ei edrych arno ond ar yr adeg nid oedd bid am arian yn llwyddiannus. Sut bynnag, gyda chryn fwy o gerdded a beicio ac agoriad y dafarn leol yn y pentref ac fel sydd wedi ei gofnodi gan yr Aelod Lleol, mae yma fwy bellach o gyfiawnhad cael ymestyn llwybr diogel i'r pentref, sydd hefyd yn hanfodol o ran teithio llesol a diogelwch trigolion yn gyffredinol. Beth sydd felly wedi ei gytuno yw ein bod yn ail edrych ar beth sydd yn bosib yma a chyflwyno bid grant neu fod yn barod os oes cyfle o arian yn dod yn rhydd o'r ffynhonnell teithio llesol a bod hwn yn un cynllun all fod yn uchel o ran blaenoriaeth".

**Felly penderfynwyd derbyn er gwybodaeth a chadw golwg ar y sefyllfa.**

**Materion yn y gymuned**.

16. **Llanystumdwy**
a) **Parcio gyferbyn tai Maen y Wern ac i fyny am Tý Newydd** – problem fod trigolion sydd yn byw yn y tai yn parcio ar y lon gul yn ei gwneud yn anodd i gerbydau basio. Y Clerc wedi anfon llythyr at Cyngor Gwynedd yn gofyn am y posiblrwydd o gael llinnellau melyn yno. **Heb gael ateb eto, wedi gofyn eto.**

b) **Afon Llanystumdwy** – derbyniwyd sylwadau mai un darn o bren oedd yn croesi'r ffos gyntaf ar hyd y llwybr ger yr afon, ar ol pasio'r Bedd. Mae'n debyg fod dau ddarn coedyn ('slipan lein') yno cynt. Hefyd, nodwyd fod coeden wedi prydru ac yn pwyso ar goeden arall gerllaw**. Clerc wedi anfon lluniau ac ymholiad at Cyngor Gwynedd.**

c) **Cais i arafu traffig o'r A497 o gyfeiriad Cricieth i Lanystumdwy** – derbyniwyd llythyr (ar 02.09.21) gan un o drigolion Llanystumdwy yn cyfeirio at y ffaith fod problem o draffig trwm yn creu perygl ar hyd y lon. **Y Clerc wedi derbyn ebost gan Mr Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig, Cyngor Gwynedd ac am osod 'cownteri cyflymdra' i gasglu tystiolaeth er mwyn dod i ddatrysiad i'r problemau, a tharo golwg dros ddata damweiniau lleol yn yr ardal. Bydd opsiwn i'w lleoli yn ystod tymor yr haf hefyd. Byddant yn cael ei gosod fis Rhagfyr tu allan i Brondwyfor, Dwyfor tua Criccieth, a'r llall tu allan i fynedfa Aberkin. Byddai eu gosod yn y mannau hyn yn mesur y cyflymder o'r ddau gyfeiriad, a gobeithio yn amlygu'r sefyllfa beryglus ofnadwy sy'n vodoli wrth ymyl tŷ mam a'r troead i mewn i'r pentref.**
**Derbyniwyd yr ebost isod wedyn, "**

"Diolch i chi ac aelodau'r Cyngor Cymuned sydd ynghlwm i'r neges am gymryd y mater o ddifrif. Bydd gosod mesurau pellach yn siwr o wneud y ffordd yn fwy diogel ac rwy'n sicr yn arbed bywydau i'r dyfodol."

17. **Rhoslan/Ynys**
**Gwinllan Rhos Ddu** -treth dalwyr o'r tai yn yr Ynys yn mynegi pryderon ynglýn â beth sy'n mynd ymlaen yn Winllan Rhos Ddu.
Wedi derbyn ateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud ei bod am ymweld â'r lle o fewn y dyddiau nesaf, a bod:-

> "perchennog y tir angen caniatad gan Cyfoeth Naturiol Cymru i dorri coed a mae pob gwaith arall mae nhw wedi gwneud efallai angen cynllunio gan Cyngor Gwynedd".
> Ni dderbyniwyd ymateb gan Cyngor Gwynedd eto.

**Chwilog**

**18. Ffos rhwng Tyddyn Heilyn a Chwilog Fawr** – mae ffos ddyfn ar hyd y lon gul, ar y chwith am gyfeiriad Chwilog. Mae cerbydau yn gorfod bagio nol weithiau ac yn mynd yn sownd yn y ffos, ac yn gorfod cael cymorth i gael ei tynnu'n rhydd gan dractorau ffermwyr lleol. Byddai'n haws gosod peipen ddraen yn y ffos, a gorchuddio'r ffos fel nad oes peryg i gerbydau fynd i drafferth. **Heb dderbyn ymateb eto.**

19. **Cilbost Bryn Gwdyn, ger Ffatri Laeth, Chwilog** – wedi cael ei godi o'r newydd ac yn ymddangos yn rhy agos i'r lon fawr, a thybed ydynt wedi cael caniatad gan yr Adran Priffyrdd i ledu'r fynedfa ar lon mor brysur. **Heb dderbyn ateb eto.**

20. **Pencaenewydd/Sardis**

**Lloches bws Trallwyn** – derbyn gwybodaeth gan dreth dalwr yn dweud:-

"Hoffwn ddod a lloches bws sydd ar groesfan Pencaenewydd yn Lodge Trallwyn i'ch sylw. Mae cyflwr y lloches yn ddifrifol ers amser, mae sbwriel wedi ei adael ynddo ers misoedd, mae angen glanhau y safle ar fyrder, mae sedd y lloches wedi cael ei malu gan fandaliaid ac yn rhy beryg i neb eistedd arni. Mae hon yn lloches a llawer o ddefnydd arni a gobeithiaf y caiff y sylw sydd eisiau arni ar fyrder".

Y Clerc wedi bod yno, ac wedi tynnu llun o'r lloches bws i weld y difrod, ac wedi egluro y bydd y mater yn cael ei drafod fis Rhagfyr. Mae'r sedd wedi cael ei difrodi fel na fedr neb eistedd arni, a fyddai'n werth cael pris i'w adnewyddu neu ei thynnu oddi yno'n gyfan gwbl fel nad yw hyn yn digwydd eto? **Gofynnwyd i'r Clerc ofyn am bris, a'i bod yn bwysig cadw sedd yno.**

**Llangybi**

21. **Llwybr o Ffynnon Cybi i Bont y Merched** – y Clerc wedi holi Mr Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i weld os oedd bwriad i orffen y gwaith a ddechreuwyd ar y llwybr, a derbyniwyd ateb ganddo yn cadarnhau mai yn y flwyddyn ariannol newydd y bydd yn gallu gweithredu ar unrhyw waith i wella'r llwybr.

22. **Materion Ariannol**

Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 02.12.2021, a rhagolwg o'r gwariant tebygol erbyn 31.03.2022. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

23. **Gelli Gron** – Cwmni Lightsource wedi anfon ebost yn dweud bydd **£4,190.38** yn cael ei dalu i'r Cyngor ar 12.12.2021, sef codiad 'RPI' 4.859% eleni am y cyfnod rhwng 30.11.2021 – 30.11.2022, sef £194.18 yn fwy na llynedd. **Derbyn.**

24. **Cae Chwarae Llangybi** – penderfynwyd ei bod yn iawn ymestyn y contract hefo Mr Rhys Jones am gyfnod o 3 mlynedd i gyd, sef rhwng Ebrill 2021 tan Ebrill 2024 oherwydd fod y gwaith yn foddhaol.

25. **Cyfarfod Cyllid/Busnes** – a gynhaliwyd 04.11.2021. Bydd y Clerc yn trefnu i anfon y cofnodion at bawb erbyn cyfarfod mis Ionawr 2022.

26. **Praesept 2022-2023** – llythyr gan Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn dweud fod angen gadael iddynt wybod erbyn 28.01.2022, faint o braesept fydd y Cyngor Cymuned ei angen am y flwyddyn sydd yn dod.

Trafodwyd y mater yn ein cyfarfod Pwyllgor Busnes 04.11.21, ac fe awgrymwyd y dylid ei godi yn ol chwyddiant sef 2%, felly o £18,000.00 i £18,360.00 o'r 01.04.2022 ymlaen, ond fod angen

trafod y mater yn y prif gyfarfod yma i weld os oedd pawb yn gytuno. **Penderfynu ei drafod mis Ionawr ar ol derbyn cofnodion y Pwyllgor Busnes.**

27. **Gohebiaeth gan Is-Adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol ynglŷn â swm priodol gwariant o dan Adran 137(1)** o dan Ddeddf 1972 yn caniatau i'r cyngor cymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddynt bwerau penodol yn ei cylch. Mae hyn os bydd y Cyngor yn ystyried bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled a bod y gost yn gyson a'r budd. Yr uchafswm y gellir ei wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023 fydd £8.82 am bob etholwr yn lle £8.41 eleni. Mae 1518 o etholwyr ar y gofrestr yng nghymuned Llanystumdwy. **Derbyn**.

28. **Archwiliad allannol – cyfrifon 2020 - 2021.** – Y Clerc heb dderbyn ymateb gan yr Archwilwyr Allanol eto.

29. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor. Y Clerc wedi trefnu i roi hysbyseb yn rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2021 o'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2022.

30. **Diffibileiddiwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd** – holi am y posiblrwydd o osod 2 'diffib.'newydd oherwydd nad oes un yn yr ardal ar hyn o bryd. **Angen i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd i weld os oedd yn bosib defnyddio trydan o'r polyn ger y lloches bws yn Rhoslan**.

31. **Elusen William Ellis** – trafodwyd y cais am gyfraniad o'r Elusen a dderbyniwyd drwy'r post cyn 30.11.2021, hefo Cynghorwyr Llanystumdwy a oedd yn bresennol, sef Cynghorwyr Naomi Jones, Gareth Davies a Darren Morley. Roedd hyn yn sgîl rhoi hysbyseb yn Y Ffynnon ac ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy fis Tachwedd 2021.
Mae'r manylion arwahân gyda gohebiaeth yr Elusen gan y Clerc. Bydd y Cynghorydd Naomi Jones yn llofnodi'r siec a'r cofnodion arwahân yn dilyn y cyfarfod.
**Bydd y ceisiadau yn cael ei trafod yn dilyn y prif gyfarfod yma ar 02.12.2021.**

32. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 02.12.2021:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br><br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Mr Rhys Jones | Cae chwarae Llangybi-barbio clawdd unwaith a thorri gwellt am y tymor 2021. | **650.00** | | **650.00** | **650.00** |

33. Cyflog mis Tachwedd 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS :-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Tachwedd 2021<br>35 awr y mis x £11.05 = £386.75 | 386.75 -<br>Llai treth £77.40<br>= £309.35 | **309.35** | **309.35** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Tachwedd 2021 | 387.00 x 20% = £77.40 | **77.40** | **77.40** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau'r Clerc<br>Tachwedd 2021 | £16.66 | **16.66** | **16.66** |

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 06.01.2022.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**